Safonau Gwasanaeth – Cam-drin Domestig

Datganiad cenhadaeth Tai Ceredigion

“Bod yn landlord ac yn gyflogwr dwyieithog o’r radd flaenaf sy’n rhoi tenantiaid yn gyntaf, sy’n darparu cartrefi o safon ac sydd o fudd i gymunedau a’r economi leol.”

Safon

Mae Cam-drin Domestig yn fath o ymddygiad gwrthgymdeithasol sy’n peri risg uchel i ddiogelwch personol. Mae Tai Ceredigion o’r farn na ddylai ein tenantiaid na’n staff orfod byw gan ofni trais neu gamdriniaeth.

Byddwn yn cymryd achosion o gam-drin domestig o ddifrif ac rydym wedi ymrwymo i ymateb yn sensitif ac yn gyfrinachol i unrhyw un sy’n gofyn i ni am gymorth yn dilyn achosion o gam-drin domestig. Mae eich cytundeb tenantiaeth yn nodi’n glir bod cam-drin domestig yn ymddygiad annerbyniol.

Beth yw cam-drin domestig neu drais domestig?

Unrhyw achos neu batrwm o drais, camdriniaeth neu ymddygiad lle mae unigolyn yn ceisio rheoli, gorfodi neu fygwth unigolyn arall, rhwng pobl 16 oed neu hŷn sy’n berthnasau neu’n bartneriaid agos neu sydd wedi bod yn berthnasau neu’n bartneriaid agos, waeth beth fo’u rhyw neu’u rhywioldeb, ac nid yw wedi’i gyfyngu i’r mathau canlynol o gamdriniaeth:

- cam-drin seicolegol
- cam-drin corfforol
- cam-drin rhywiol
- cam-drin ariannol
- cam-drin emosiynol.

Mewn achosion o gam-drin domestig, bydd Tai Ceredigion yn darparu gwybodaeth a chymorth i denantiaid a byddwn:

- yn ymateb yn effeithiol i achosion o gam-drin domestig.
- yn disgwyl i’n staff gefnogi ein hymrwymiad i ymdrin â thrais domestig. Byddwn yn darparu’r hyfforddiant perthnasol i’r staff hynny.
- yn trin dioddefwyr gyda pharch ac yn sicrhau, ble bynnag y bo modd, bod eu preifatrwydd yn cael ei barchu.
- bob amser yn cynnig ystafell gyfweld gyfrinachol breifat, ac yn cynnig dewis iddynt o ran cael eu cyfweld gan aelod o staff benywaidd neu wrywaidd.
- yn defnyddio dull gweithredu y mae’r dioddefwr yn ganolog iddo, sy’n seiliedig ar risg ac sy’n cynnig hyblygrwydd, er mwyn i ni allu ystyried anghenion unigol.
- yn gweithredu heb farnu mewn sefyllfaoedd lle mae perthynas wedi chwalu oherwydd trais domestig.

Safonau Gwasanaeth – Cam-drin Domestig

- yn darparu'r cyngor priodol er mwyn galluogi'r sawl sydd wedi dioddef camdriniaeth ddomestig i wneud dewisiadau ynghylch y camau nesaf i'w cymryd.

- yn sicrhau bod cartref y dioddefwr wedi'i ddiogelu, ac yn trafod â staff cynnal a chadw er mwyn trefnu bod unrhyw waith atgyweirio'n cael ei wneud ar frys i sicrhau bod y dioddefwr a'i deulu, lle bo'n briodol, yn ddiogel.

- yn cynorthwyo dioddefwyr i ddod o hyd i lety arall drwy'r Gofrestr Dai.

- yn gweithio gydag asiantaethau eraill megis yr Heddlu, Gwasanaethau Cymdeithasol a gwasanaethau cymorth eraill i ddarparu'r cyngor a'r cymorth perthnasol i'r dioddefwr.

- yn sicrhau nad ydym yn rhannu gwybodaeth am y dioddefwr â thrydydd parti, hyd yn oed os ydynt yn denantiaid ar y cyd yn y cyfeiriad dan sylw, heb ganiatâd yr unigolyn oni bai ein bod yn credu bod risg i blant neu oedolion agored i niwed neu fod rhywun yn y cartref mewn perygl o ddioddef niwed difrifol.

- yn darparu proses atgyfeirio briodol er mwyn rhannu gwybodaeth ag asiantaethau cymorth os ydym o'r farn bod rhywun mewn perygl o ddioddef niwed difrifol.

- yn cydnabod effaith trais domestig ar ddioddefwyr, tystion a chymdogion.

- yn eu cynorthwyo i gael mynediad i lochesau, gwasanaeth cwnsela a gwasanaethau iechyd a lles eraill, ac yn eu cynorthwyo gyda gwaharddebau.

- yn prosesu gwaith atgyweirio yr adroddir yn ei gylch oherwydd trais domestig, drwy ein llwybrau cyflymaf.

- yn ceisio chwilio am gymorth priodol i'r sawl sy'n cyflawni camdriniaeth ddomestig, er mwyn atal y gamdriniaeth rhag digwydd eto.

- yn sicrhau bod Tai Ceredigion a/neu'r asiantaeth gymorth berthnasol yn cadw mewn cysylltiad yn rheolaidd â'r dioddefwr i sicrhau ei fod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn gyson.

Bydd cam-drin domestig bob amser yn cael ei ystyried yn rhywbeth sy'n cael effaith negyddol ar blant. Pan fydd swyddogion Tai Ceredigion yn gweithio gyda phobl sy'n dioddef camdriniaeth ddomestig, dylent fod yn ymwybodol hefyd o anghenion unrhyw blant sydd yng ngofal y sawl sy'n cyflawni neu'r sawl sy'n dioddef y gamdriniaeth.

Mae copi o'n Polisi ynghylch Cam-drin Domestig ar gael o ofyn amdano, trwy ffonio 0345 606 7654 neu e-bostio post@taiceredigion.cymru

Caiff y Safonau hyn eu hadolygu'n rheolaidd, o leiaf bob tair blynedd

Cymeradwywyd gan y Tenantiaid